Arholiadau
Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Hanes – Ynysoedd Prydain

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch UN Cwestiwn o Rhan A ac UN Cwestiwn o Rhan B

Rhan A

1. Pa heriau mae haneswyr yn eu hwynebu wrth ddefnyddio croniclau fel ffynonellau?

2. A fyddech chi'n cytuno nad yw dyddiaduron personol o werth i haneswyr oherwydd eu bod wedi'u lliwio'n ormodol gan awydd eu hawduron i'w portreadu eu hunain mewn goleuni cadarnhaol?

3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffynhonnell wreiddiol a ffynhonnell eilaidd, a sut mae haneswyr yn defnyddio'r naill a'r llall i ddeall y gorffennol?

4. Pam mae'n rhaid i haneswyr ystyried sut y cafodd ffynhonnell ysgrifenedig ei chreu, er enghraifft pwy a'i hysgrifennodd a phryd, wrth ddadansoddi ei chynnwys?

5. Ym mha ffyrdd y gall haneswyr ddefnyddio ffynonellau gweledol a materol? Rhowch enghreifftiau penodol.

6. Pa hanesydd sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar eich dealltwriaeth o hanes, a pham?

Rhan B

Y Canoloesoedd

7. I ba raddau y gellid cyfiawnhau hawl Gwilym Goncwerwr ar goron Lloegr?
8. Pwy oedd ar fai am yr anghydfod rhwng Harri II a Thomas Becket?
9. Beth oedd canlyniadau goresgyniad Iwerddon o dan Harri II?
10. I ba raddau y bu absenoldeb Rhisiart I yn niweidiol i Loegr yn ystod ei frenhiniaeth?
11. I ba raddau y gellir ystyried John yn frenin gwael?
12. I ba raddau y creodd Llywelyn ap Gruffudd (Ein Llyw Olaf) dywysogaeth Gymreig unedig?
13. Pam na lwyddodd Gwrthryfel Glyndŵr i gyflawni ei amcanion?

14. A oedd yr Eglwys yn fwy o ffactor ymrannol ynteu'n ffactor a oedd yn uno yng Nghymru a Lloegr yn yr Oesoedd Canol Diweddar?
15. I ba raddau yr oedd brenhinoedd Lloegr yn y canoloesoedd yn gallu arfer eu grym dros eu huchelwyr?

Y Cyfnod Modern Cynnar

16. A fyddech chi'n cytuno mai Sbaen oedd prif ffocws polisïau tramor y brenhinoedd a'r breninesau Tuduraidd?
17. A fyddech chi'n cytuno bod Cymreictod Harri VII yn aml wedi cael ei orbwysleisio ac na wnaeth fawr ddim i Gymru ar ôl dod yn frenin?
18. I ba raddau yr oedd yna 'argyfwng canol cyfnod y Tuduriaid'?
19. I ba raddau yr oedd Cymru wedi'i hintegreiddio i deyrnas Lloegr erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg?
20. Pam y gwnaeth gwrthryfela beri cymaint o broblemau i'r brenhinoedd a'r breninesau Tuduraidd a/neu Stiwartaidd?
21. I ba raddau yr oedd Rhyfel Cartref Lloegr yn rhyfel crefyddol?

Y Cyfnod Modern

22. I'r rhan fwyaf o'r gweithwyr, y profiad pennaf a gawsant o'r Chwyldro Diwydiannol oedd yn nhermau newidiadau yn natur a dwyster yr ecsbloetio' (E. P. Thompson). Trafodwch.
23. A ddylid ystyried mudiad y Siartwyr yn fethiant?
24. Pa ffactorau sy'n egluro twf y Blaid Lafur yn y cyfnod Edwardaidd?
25. Dadansoddwch y berthynas rhwng cynhyrchu te a siwgr yn y trefedigaethau Prydeinig ac arferion yfed/bwyta y cyhoedd yn Oes Fictoria.
26. Pam y cafodd menywod ym Mhrydain y bleidlais yn 1918?
27. 'Ni welwyd erioed long yn ymddryllio dan law capten a chriw mwy anwybodus o'r rhesymau am ei helynt na mor analluog i wneud unrhyw beth ynglŷn â'r sefyllfa' (Hobsbawm, cyfieithiad). A fyddech chi'n cytuno â'r asesiad hwn o lywodraethau Prydain yn y 1930au?
28. I ba raddau y gwnaeth Adroddiad Beveridge gynnig gweledigaeth radical o ddiwygio cymdeithasol?
29. Pan grëwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a oedd hyn yn doriad sylweddol oddi wrth y gorffennol o ran darparu gofal iechyd a meddygol ym Mhrydain?
30. I ba raddau y gwnaeth Argyfwng Suez gyflymu dad-drefedigaethu'r Ymerodraeth Brydeinig?
31. Ym mha ffyrdd y cafodd cymdeithas Prydain ar ôl y rhyfel ei ffurfio gan fewnfudwyr o gyn-drefedigaethau Prydeinig?